2 Arfer Da wrth...
gynnwys pobl ifanc yn weithredol

Cyflwyniad

Mae hawl plant a phobl ifanc i gael eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt wedi'i chydnabod yng Nghyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Yn ddiweddar cafwyd ymgyrch sylweddol i gynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus. Hyrwyddir hyn o dan y gyfraith, ar ffurf polisi ac yn ymarferol ar draws y DU .

Gall cynnwys plant a phobl ifanc yn weithredol fod yn bwnc sy'n peri emosiynau cryf. Nid oes unrhyw ddiffiniad a dderbynnir yn gyffredinol o'r hyn sy'n ffurfio cyfranogiad gweithredol nag unrhyw gydsyniad ar natur y cyfranogiad ac i ba raddau y gellir cynnwys pobl ifanc yn ystyrlon.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu rhai ymagweddau at gyfranogiad gweithredol sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer prosiectau a ariennir drwy Gronfa Pobl Ifanc y Gronfa Loteri Fawr. Roedd cynnwys pobl ifanc yn weithredol ac yn ystyrlon yn rhan annatod o ddylunio'r CPI ac yn elfen allweddol sy'n ei rhoi ar wahân i ffrydiau ariannu eraill. Dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiad ledled y DU, a gyflawnwyd gan GEN Consulting a Wavehill Consulting, ystod o fuddion yn deillio o hyn.

Mae'r canllaw yn darparu cyngor, enghreifftiau ymarferol a ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth bellach ar gyfer prosiectau cyfredol ac yn y dyfodol sydd am gyflawni cyfranogiad gweithredol ac ystyrlon plant a phobl ifanc.

Pam ddylwn gynnwys pobl ifanc?

Cyn mynd ati i hyrwyddo cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc, dylech feddu ar ddealltwriaeth glir o pam rydych am gynnwys pobl ifanc ynghyd â throsolwg clir o'r hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni.

Bydd yr eglurder hwn yn sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon a HEB FOD yn symbolaidd yn unig.

Mae buddion cydnabyddedig sy'n deillio o gyfranogiad gweithredol ar gyfer pob grŵp perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Buddion ar gyfer pobl ifanc...

- Cyfle i ddweud eu dweud a dylanwadu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.
- Gwasanaethau sy'n adlewyrchu ac yn diwallu eu hanghenion yn well.
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd.

Buddion ar gyfer mudiadau...

- Syniadau newydd gan bobl ifanc.
- Gwella ansawdd gwasanaeth ac effeithlonrwydd o ganlyniad i well atebolrwydd, gwell strwythurau, polisïau a phenderfyniadau.
- Gwell gallu i ddiwallu anghenion pobl ifanc.
- Gwell sgiliau i weithwyr.

Buddion ar gyfer cymunedau...

- Galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn cymdeithas ehangach.
- Darparu'r sgiliau a rhinweddau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fod yn oedolion cyfrifol sy'n cymryd rhan.
- Cysylltiadau cymunedol a rhwng y cenedlaethau gwell wrth i bobl ifanc gael eu hystyried yn gyfranwyr cadarnhaol.

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Sut i gynnwys pobl ifanc

I sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon, mae nifer o gwestiynau y dylech eu gofyn a'u hateb cyn i chi ddechrau[1].

1. Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni (ar ein cyfer ni ac ar gyfer y bobl ifanc)?
2. Ble ydym ni nawr?
3. Ydym ni'n fodlon / oes gennym y gallu i ddarparu adnoddau?
4. Ydym ni'n bod yn onest gyda phobl ifanc?
5. Ydym ni'n fodlon ildio rhywfaint o bŵer?
6. Ydym ni'n fodlon cael ein beirniadu?
7. Ydy hwn yn ymrwymiad hir dymor?
8. A fyddwn yn ymgorffori newidiadau hir dymor?

Mae llawer o ffyrdd o gynnwys pobl ifanc yn weithredol. Nid oes unrhyw ddulliau cywir neu anghywir. Bydd y dulliau cymryd rhan mwyaf effeithiol yn dibynnu ar natur eich gweithgaredd prosiect a nodweddion y bobl ifanc rydych yn cydweithio â nhw.

Ar draws y prosiectau sy'n cymryd rhan yn y gwerthusiad o'r CPI, roedd y dulliau cymryd rhan mwyaf cyffredin yn cynnwys:

Ffyrdd mwyaf poblogaidd o gynnwys pobl ifanc

- Adolygu gweithgareddau gan ddarparu adborth ffurfiol i staff
- Adolygu gweithgareddau drwy ddarparu adborth strwythuredig i staff e.e. arolygon/grwpiau ffocws
- Dylunio gweithgareddau prosiect
- Cynnwys pobl ifanc eraill mewn gweithgareddau e.e. recriwtio cymheiriaid
- Cyfranogiad mewn fforymau ieuenctid neu grwpiau llywio i arwain datblygu a chyflwyno gweithgareddau
- Cyflwyno gweithgareddau prosiect
- Rheoli gweithgareddau/elfennau o weithgareddau (gan gynnwys rheoli cyllidebau/adnoddau)
- Recriwtio staff prosiectau e.e. cymryd rhan wrth lunio manylebau swyddi ac mewn cyfweliadau
- Pobl ifanc yn cael eu cynrychioli ar bwyllgor rheoli'r mudiad ehangach.

Amlygodd gwerthusiad y CPI ddau fath gwahanol o gymryd rhan:

Cyfranogiad gweithredol:

Mae pobl ifanc yn ymwneud â chyflwyno a rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd. Mae prosiectau'n tueddu i fod â ffocws mewnol, gan olygu mai'r bobl ifanc eu hunain yw'r prif fuddiolwyr er y bydd y gymuned ehangach, o bosib, yn elwa o weithgareddau'r prosiect. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- ymgynghori â phobl ifanc.
- cynllunio gweithgareddau prosiect bob dydd.
- cyflwyno gweithgareddau prosiect bob dydd.
- datblygu'r prosiect ac adnoddau hyfforddiant.

Cyfranogiad strategol:

Cyfranogiad strategol: Mae pobl ifanc yn ymgymryd â rôl strategol lefel uchel yng ngweithgareddau a chyfeiriad y prosiect yn y dyfodol tra bod gweithwyr y prosiect yn ymdrin ag agweddau bob dydd ar gyflwyno a rheoli.

Mae prosiectau'n aml yn seiliedig ar bynciau, gan ddod â phobl ifanc sydd â nodweddion neu safbwyntiau a rennir ynghyd. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau ymgyrchu a fforymau ieuenctid. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- pennu'r cyfeiriad strategol.
- adnabod pynciau a gweithgareddau.
- adnabod a chysylltu â budd-ddeiliaid strategol i beri newid.

Mae cyfranogiad gweithredol yn gwella'r buddion ar gyfer pobl ifanc o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw fath penodol o gymryd rhan yn creu mwy o fuddion na'r llall, ac mae'n wir yn aml fod elfennau o'r ddau fath o gyfranogiad yn bresennol mewn prosiect unigol.

[1] *Addaswyd o Treseder.P. (2007), Empowering Children and Young People, Children's Rights Office ac SCF.*

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Mewn geiriau eraill...

...y broses cymryd rhan sy'n arwyddocaol wrth gyflawni'r effaith yn hytrach na'r gweithgareddau penodol...

Gwneud y peth iawn!

Bydd angen adnoddau ychwanegol:

Os yw eich mudiad yn ymrwymedig i gynnwys pobl ifanc yn weithredol, bydd angen adnoddau ychwanegol. Mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r:

Costau i bobl ifanc – gall cyfranogiad sy'n gofyn am bresenoldeb arwain at gostau i bobl ifanc, er enghraifft costau cludiant, prydau a lluniaeth neu gostau gofal plant (i rieni ifanc). Dylech fod yn ymwybodol o'r costau hyn a gweithio gyda phobl ifanc i oresgyn rhwystrau a hwyluso eu cyfranogiad. Gallech ystyried:

- darparu cludiant i'r lleoliad ac oddi yno.
- darparu prydau a lluniaeth iach a maethlon ar gyfer pobl ifanc i hyrwyddo cymryd rhan.
- hyrwyddo cymryd rhan sy'n gweddu i gyfrifoldebau gofal plant e.e. darparu cyfleusterau gofal plant ar y safle er mwyn i rieni ifanc gymryd rhan pan fydd eu plant yn bresennol.

Hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i bobl ifanc – bydd rhwystrau i gyfranogiad gweithredol os nad oes gan bobl ifanc y gallu neu'r hyder i gymryd rhan a pharhau i gymryd rhan Gall gwahaniaethau mewn lefelau hyder a gallu olygu'n hawdd bod pobl ifanc a allai elwa o gymryd rhan gael eu hymyleiddio. Dylech fod yn ymwybodol o hyn a dylech hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd cymryd rhan fel bod pobl ifanc yn teimlo'n hyderus a chymryd rhan ar amser ac mewn ffordd sy'n addas ar eu cyfer. Gallwch ddarparu:

- **Cefnogaeth ymarferol** – er enghraifft, cefnogaeth i gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd, datblygu gweithgareddau ac adnoddau prosiect, neu drefnu digwyddiadau.
- **Cefnogaeth emosiynol** – er enghraifft, cefnogaeth i ddatblygu hyder a hunanhyder pobl ifanc, cefnogaeth gyda chyflwyno a siarad yn gyhoeddus.

Gall llawer o gefnogaeth gael ei darparu gan weithwyr ieuenctid profiadol.

Mae'n bosib y byddwch am ystyried hyfforddiant ffurfiol i gefnogi pobl ifanc. Profodd hyn yn llwyddiannus ar gyfer rhai prosiectau CPI (Astudiaeth Achos Enghreifftiol 1)

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 1

Gwlad: Gogledd Iwerddon

Prosiect: Eye Matter Campaign for Equality

Mudiad: RNIB

Mae Eye Matter Campaign for Equality yn grŵp ymgyrchu i bobl ifanc sydd â nam ar y golwg. Mae'r grŵp yn ymgyrchu dros newid cadarnhaol i hyrwyddo hygyrchedd a chydraddoldeb i'r rhai sydd â nam ar y golwg.

Er yr oedd rhai pobl ifanc yn rhagweithiol iawn o ran ymgyrchu, roedd diffyg hyder gan eraill i gymryd rhan yn llawn ar unwaith.

Cydnabuwyd hyn gan weithwyr prosiect, a rhoddwyd cyfle i'r bobl ifanc gwblhau'r cymhwyster Paratoi i Gymryd Rhan RhCA lefel dau. Rhoddodd hyn gyfle i bobl ifanc gymryd rhan yn raddol, yn y dull ac ar gyflymder a oedd orau ar eu cyfer.

Nododd gweithwyr prosiect gynnydd sylweddol mewn cymryd rhan dros gyfnod yr ariannu. Digwyddodd hyn ar yr un pryd â chynyddu hyder a sgiliau'r bobl ifanc wrth iddynt sylweddoli bod ganddynt y pŵer i greu newidiadau gwirioneddol a pharhaus.

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 3 y CPI 3 (2009)

Neu

www.eyematter.co.uk

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Mae hyblygrwydd yn allweddol:

Gall symud o blentyndod i oedolaeth fod yn amser anodd i bobl ifanc; mae'n amser pan fydd sawl agwedd ar eu bywydau'n newid ac mae ganddynt nifer mawr o flaenoriaethau sy'n cystadlu.

Mae hyblygrwydd yn bwysig o ran cyflawni a chynnal cyfranogiad gweithredol ac ystyrlon:

- Gellir amrywio dulliau a phrosesau cymryd rhan i ddod o hyd i'r atebion sy'n gweddu orau i anghenion newidiol y bobl ifanc rydych yn cydweithio â nhw (astudiaeth achos enghreifftiol 2).
- Peidiwch â bod ag ofn profi pethau. Bydd yn cymryd amser i roi'r prosesau a'r strwythurau ar waith a fydd yn hyrwyddo cyfranogiad gweithredol orau, ac weithiau ni fydd pethau'n gweithio. Rhowch gynnig ar syniadau newydd ac addaswch eich ymagweddau yn unol ag adborth gan bobl ifanc.
- Gallai dulliau cymysg fod yn effeithiol. Nid oes unrhyw atebion cyffredinol, a bydd pobl ifanc wahanol yn mwynhau ac yn ymateb i ddulliau cymryd rhan gwahanol. Peidiwch â bod ag ofn rhoi cynnig ar amryw bethau!

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 2

Gwlad: Lloegr

Prosiect: SOLE (Shout Out Loud Everyone)

Mudiad: Youth Project @ Apostles and Cuthberts (YPACs) (Manchester)

Mae SOLE yn fforwm ieuenctid sy'n rhoi cyfrifoldeb i bobl ifanc dros gynllunio, cyflwyno a rheoli gweithgareddau ieuenctid YPAC. Mae hyblygrwydd wedi bod yn rhan bwysig o lwyddiant a datblygiad parhaus SOLE.

O'r cychwyn cyntaf gwelodd SOLE fod presenoldeb mewn cyfarfodydd y fforwm yn afreolaidd a bod llawer o bobl ifanc yn ei chael hi'n anodd darparu'r ymrwymiad yr oedd ei angen i yrru gweithgareddau ieuenctid YPAC ymlaen.

Penderfynodd SOLE newid ei fformat a symudodd i gyfarfod bob pythefnos ar gyfer aelodau craidd a chyfarfodydd misol ar gyfer yr holl aelodau. Cynhaliwyd y cyfarfodydd gydag isafswm niferoedd i gynnal momentwm a chadwyd agendâu yn fyr. Golygodd hyn fod grŵp craidd yn bodoli i symbylu gweithgarwch ond bod yr holl aelodau'n cael cyfle o hyd i gymryd rhan yn weithredol (ond mewn ffordd a oedd yn fwy addas ar gyfer eu hanghenion)

Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai aelodaeth o SOLE am gyfnod cyfyngedig, er enghraifft dwy flynedd, gan roi cyfle i gynifer o bobl â phosib gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu gweithgareddau YPAC.

Mae'r amser a gymerwyd i sefydlu'r trefniadau wedi arwain at grŵp craidd sy'n aros yn eu swyddi am gyfnod estynedig, er bod newidiadau bellach wedi'u cynllunio. Cyngor arweinydd y prosiect oedd bod yn hyblyg a pharhau'r ymroddedig i gymryd rhan drwy ddod o hyd i ffyrdd o ddenu pobl ifanc i'r grŵp ar adegau gwahanol ac mewn ffyrdd gwahanol.

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 5 y CPI 5 (2011)

Neu

www.ypacmanchester.org.uk

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Pwysigrwydd perthnasoedd:

Mae sgiliau a rhinweddau personol staff y prosiect yn hollbwysig er mwyn i brosiectau'r sector ieuenctid ymgysylltu â phobl ifanc a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae hyn yn berthnasol ym mhob rhan o waith ieuenctid ac i gyfranogiad gweithredol hefyd.

I gymryd rhan mae'n rhaid i bobl ifanc deimlo eu bod wedi'u symbylu, eu grymuso a'u cefnogi a'u bod yn gyfrifol a bod gan eraill ffydd ynddynt. Dylent fwynhau eu rôl a mwynhau treulio amser gyda'r bobl ifanc a'r gweithwyr prosiect sy'n bresennol.

Mewn geiriau eraill...

...mae perthnasoedd yn allweddol...

Mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud i helpu creu'r perthnasoedd y mae eu hangen i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad gweithredol:

- **Ymagwedd bartneriaeth –** mae enghreifftiau llwyddiannus o gyfranogiad gweithredol yn aml yn ymwneud ag ymagwedd bartneriaeth.

Mae pobl ifanc yn teimlo bod gan eraill barch tuag atynt a ffydd ynddynt a'u bod ar yr un lefel ag oedolion. Trwy ymagwedd bartneriaeth gall pobl ifanc weld y gwaith caled a wneir gan weithwyr prosiect ar eu rhan hefyd, a gallant gael eu symbylu i weithio yr un mor galed i roi rhywbeth yn ôl (astudiaeth achos enghreifftiol 3).

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 3

Gwlad: Yr Alban

Prosiect: Fairway

Mudiad: The Hansel Foundation

Cefnogodd prosiect Fairway bobl ifanc ag anhawster neu anableddau dysgu wrth iddynt symud i oedolaeth. Cynigiodd ystod helaeth o weithgareddau, gan gynnwys mentora cymheiriaid, cefnogaeth un i un gyda staff proffesiynol a Chylchoedd Cyfeillgarwch. Cynhwysodd y prosiect bobl ifanc wrth gynllunio gweithgareddau drwy ei Grŵp Ymgynghorol. Roedd y Grŵp yn cynnwys staff y prosiect, pobl ifanc a mentoriaid cymheiriaid. Rhoddodd y Grŵp Ymgynghorol gyngor ar y mathau o weithgareddau yr oedd cyfranogwyr yn ceisio eu cyflawni.

Roedd y Grŵp Ymgynghorol yn gyswllt effeithiol rhwng cyfranogwyr ifanc a gweithwyr prosiect. Sicrhaodd cyfathrebu dwyffordd rhwng gweithwyr a phobl ifanc, gan gynyddu ymrwymiad i'r prosiect gan bob ochr.

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 3 y CPI 3 (2009)

Neu

www.fairwayproject.org.uk

- **Ysgogiadau a gwobrau –** cynyddu mwynhad pobl ifanc, eu hannog a'u symbylu ar gyfer cyfranogiad parhaus a dangos iddynt bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gwobrau ac ysgogiadau poblogaidd yn cynnwys gwibdeithiau i'r sinema a bowlio neu deithiau preswyl byr.

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Mae llawer o ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth os ydych am gynyddu cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc yn eich prosiect.

Strwythurau a pholisïau cenedlaethol:

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am strwythurau a pholisïau cenedlaethol sy'n cefnogi cynnwys plant a phobl ifanc yn weithredol, gweler:

Cymru a Lloegr:

Comisiynydd Plant Lloegr

Ewch i: www.11million.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru

Ewch i: www.childcomwales.org.uk

Ar gyfer y datganiad polisi gweler: Mae Pob Plentyn yn Bwysig

Yr Alban:

Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Yr Alban

Ewch i: www.cypcommissioner.org

Ar gyfer y datganiad polisi gweler: Getting it Right for Every Child (GIRFEC)

Gogledd Iwerddon:

Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon

Ewch i: www.niccy.org

Ar gyfer y datganiad polisi gweler: Ein Plant a Phobl Ifanc - Ein Haddewid.

Adnoddau ar gyfer cynnwys pobl ifanc:

Os hoffech gael gwybodaeth ac adnoddau i'ch helpu i weithredu a chynyddu cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc yn eich mudiad, ewch i

Participation Works yn:

www.participationworks.org.uk

The Northern Ireland Participation Network
Ewch i: www.participationnetwork.org

Ffynonellau gwybodaeth ac adnoddau eraill:

Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid– Hear by Right
Ewch i: **www.nya.org.uk**

Strwythurau Senedd Ieuenctid y DU
Senedd Ieuenctid y DU

Ewch i: www.ukyouthparliament.org.uk

Senedd Ieuenctid Yr Alban

Ewch i: www.syp.org.uk

Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon

Ewch i: www.niyf.org

Draig Ffynci – Senedd Ieuenctid Cymru

Ewch i: www.draigffynci.org.uk

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa Pobl Ifanc, cysylltwch â'r:

Gronfa Loteri Fawr: 0845 410 2030

Mae copïau o'r adroddiadau gwerthuso'r Gronfa Pobl Ifanc a dogfennau cefnogol ar gael gan y Gronfa Loteri Fawr yn:

www.cronfaloterifawr.org.uk/eval_ypf

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®